**Cronfa Partneriaeth Gymunedol**

**Canllaw i Ymgeiswyr**

## Diogelu Data

Dim ond at ddibenion prosesu eich cais am Grant Partneriaeth Gymunedol y bydd yr wybodaeth rydych chi'n ei nodi ar y ffurflen yma'n cael ei defnyddio. I ddysgu rhagor am sut y bydd y Gwasanaeth Cymorth Cynnar a Rhaglenni Cymunedol yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, ewch i:

Diogelu Data | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

http://www.rctcbc.gov.uk/HysbysiadPreifatrwyddGwasanaeth

Diben y canllawiau yma yw egluro a helpu ymgeiswyr i lenwi'r ffurflen gais.

| Adran yn y Ffurflen Gais | Canllawiau |
|---|---|
| Addasrwydd y prosiect | Rhaid i'r prosiect/gweithgaredd gael ei gyflwyno o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.<br><br>Nod Cronfa Partneriaeth Gymunedol yw cynnal lleoliadau ac asedau sy'n darparu cymorth i drigolion Rhondda Cynon Taf, gyda phwyslais parhaus ar fynd i'r afael â thlodi, cryfhau cymunedau a lliniaru effaith barhaus costau byw.<br><br>Mae'r Gronfa'n dwyn ynghyd gyllid gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â buddsoddiad cyfalaf gan Gronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DU.<br><br>Bydd y Gronfa'n cefnogi prosiectau sy'n:<br><br>• Gwella neu gynnal mannau a chyfleusterau cymunedol<br>• Darparu lleoedd diogel, cynnes a chroesawgar i drigolion<br>• Cryfhau cefnogaeth bwyd cymunedol a mynd i'r afael â thlodi bwyd |

| | |
|---|---|
| | • Meithrin cydnerthedd cymunedol drwy gydweithio, gweithgareddau a chefnogaeth<br><br>Mae cyllid cyfalaf a refeniw ar gael, gyda grantiau'n amrywio o **£2,000 i £10,000.**<br><br>**Mae cyfanswm o £400,000 ar gael yn ystod 2026-27 ac mae modd ei ddosbarthu ar ffurf Grantiau Cyfalaf neu Grantiau Refeniw neu gyfuniad o'r ddau.**<br><br>**Rhaid i bob** cais ar gyfer prosiect sicrhau cyllid cyfatebol, cyflwyno cynlluniau cynaliadwyedd cadarn, a dangos deilliannau clir i bobl leol.<br><br>Caiff y Gronfa ei gweinyddu gan y Gwasanaeth Cymorth Cynnar a Rhaglenni Cymunedol, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud gan banel gydag aelodau traws-gyngor ac o'r sector cymunedol.<br><br>Bydd angen i brosiectau fodloni amcanion blaenoriaethau buddsoddi Cronfeydd Effaith Llywodraeth Cymru a/neu Balchder Bro Lywodraeth y DU.<br><br>Mae Cronfa Partneriaeth Gymunedol wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2026-27 ac mae rownd arall o grantiau i ddilyn yn 2027-28. |
| Pwy sy'n gymwys i wneud cais? | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweinyddu Cronfa Partneriaeth Gymunedol ar gyfer sefydliadau nid er elw personol yn y Trydydd Sector a'r Sector Gwirfoddol.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth bod ganddyn nhw:<br><br>• Cyfansoddiad neu Ddogfen Lywodraethu;<br>• Cyfrif Banc yn enw'r sefydliad;<br>• o leiaf 2 lofnodwr awdurdodedig ar wahân (ddim o'r un teulu). |
| Faint o arian rydw i'n cael gwneud cais amdano?<br><br>Beth yw'r terfynau amser? | Mae cronfa Partneriaeth Gymunedol ar gael ar ddwy lefel:<br><br>• **Dyfarniad Lefel Is - £2,000 i £5,999**<br><br>• **Dyfarniad Lefel Uwch - £5,001 i £10,000**<br><br>Mae modd i brosiectau fod yn brosiectau cyfalaf a/neu refeniw. |

| | |
|---|---|
| Am beth mae modd i mi wneud cais? | Y tro yma, bydd ceisiadau'n agor 11 Mai 2026 am 9.30am ac yn cau am 5pm ar 29 Mai 2026.<br><br>Yr amserlen ar gyfer y gwariant/gweithgaredd cymwys yw 1 Ebrill 2026 – 31 Mawrth 2027.<br><br>Rhaid i brosiectau gwblhau'r holl weithgaredd erbyn 28 Chwefror 2027 a chau'r broses ariannol erbyn 31 Mawrth 2027.<br><br>**Gwariant posibl - Enghreifftiau yn unig:**<br><br>• Offer – e.e., darnau bach o eitemau y mae modd eu cludo, megis tegell, wrn, peiriant gwnïo.<br>• Costau gweithgareddau gan gynnwys llogi lleoliad<br>• Camau adferol Archwiliadau Effeithlonrwydd Ynni<br>• Cyflogau sefydliadol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgarwch/prosiect - bydd angen adroddiadau cyflogres ariannol llawn os caniateir cyllid ar gyfer costau cyflog.<br>• Gwariant cyfalaf neu fuddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith – Gweler adran 6 o'r Canllawiau Templed Cynllun Prosiect am ragor o fanylion mewn perthynas ag eitemau cyfalaf.<br><br>Mae modd i geisiadau gynnwys hyd at 10% o gostau'r sefydliad megis rheoli/gweinyddu prosiectau, costau lleoliad megis cyfleustodau.<br><br>Bydd pob cais yn cael ei asesu gan banel ar ddiwedd y cyfnod ymgeisio, a hynny'n rhan o broses gystadleuol. Cyfeiriwch at y ddogfen Meini Prawf sydd wedi'i ddarparu. |
| Sut bydd fy nghais yn cael ei brosesu? | Byddwch chi'n derbyn cadarnhad ar ôl i chi gyflwyno eich cais.<br><br>Bydd pob cais yn cael ei asesu gan banel asesu ar ôl i'r cyfnod ymgeisio ddod i ben.<br><br>Bydd ceisiadau sydd ddim yn bodloni gofynion y grant neu'r trothwy sgorio gofynnol (cyfeiriwch at y Meini Prawf Asesu) yn cael gwybod o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad cau.<br><br>Bydd ceisiadau sy'n cydymffurfio â grantiau ac yn cyrraedd y trothwy sgorio gofynnol yn symud ymlaen i'r cam asesu nesaf, sy'n cynnwys pleidleisio ar ddewis partneriaid Rhwydweithiau Cymdogaeth, a Phanel Penderfynu Llawn. |

| | |
|---|---|
| | Bydd ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn cael gwybod am y penderfyniad ar ôl y Panel Penderfynu Annibynnol Llawn, erbyn 30 Mehefin 2026 fan bellaf. |
| Ffurflen Gais<br><br>Mae Ffurflen Gais Word ar gael ar y wefan. Mae hyn ar gyfer **paratoi yn unig.**<br><br>**Rhaid cyflwyno ceisiadau drwy'r ffurflen gais ar-lein** drwy'r ddolen ar y wefan. | |
| Adran 1<br><br>Manylion cyswllt | Dyma enw'r person sy'n cwblhau'r cais ar ran y sefydliad. Dylai cyfeiriad a manylion cyswllt fod ar gyfer y sefydliad, nid data personol.<br><br>Dyma'r person y byddwn ni'n cysylltu ag ef yn ystod bob cam o'r broses ymgeisio. |
| Rhan 2<br><br>Manylion y sefydliad | Dyma enw a manylion cyswllt y sefydliad.<br><br>Dylech chi gadarnhau p'un a oes gyda chi'r yswiriant a'r polisïau perthnasol ar waith i gynnal eich prosiect. Efallai y byddwn ni'n gofyn i weld y rhain ar gais, felly sicrhewch fod modd i chi gael gafael ar y dogfennau yma'n hawdd. |
| Adran 3<br><br>Manylion Banc y Sefydliad | Dyma fanylion banc eich sefydliad.<br>Rhaid i chi sicrhau bod y manylion yma'n cyd-fynd â'r dystiolaeth rydych chi'n ei darparu yn eich cais, hynny yw, yr un rhif cyfrif a chod didoli. |
| Adran 4.a.<br><br>Enw'r Prosiect | Dyma enw'r prosiect rydych chi'n gwneud cais amdano.<br><br>Mae hwn fel arfer yn wahanol i enw'ch sefydliad. |
| Adran 4.b.<br><br>Wardiau Etholiadol | Nodwch y ward(iau) etholiadol yn RhCT a fydd yn elwa o'ch prosiect/gweithgaredd. |
| Adran 4.c.<br><br>Trosolwg o'r Prosiect | Rhowch drosolwg byr o'ch prosiect o hyd at 50 gair. |
| 4.1 Cynllun Corfforaethol CBSRhCT | Mae'r adran yma'n amlinellu sut mae'r Gronfa Partneriaeth Gymunedol yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT; Gweithio Gyda'n Cymunedau 2024-2030. |
| 4.1a – Byd Natur a'r Amgylchedd | Darllenwch, ystyriwch a chadarnhewch y bydd eich prosiect yn gyfeillgar i'r hinsawdd. |

| | |
|---|---|
| 4.1.b – Pobl a Chymunedau – Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Darllenwch, ystyriwch a chadarnhewch y bydd eich prosiect yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. |
| 4.1.c – Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg | Darllenwch, ystyriwch a chadarnhewch y bydd eich prosiect yn hyrwyddo'r Gymraeg ac, os yw'n llwyddiannus, eich bod chi'n cytuno i dderbyn ac ystyried Pecyn Cymorth Iaith. |
| Adran 5.<br>Trosolwg Ariannol | Nodwch gyfanswm y gost gyffredinol a chyfanswm y cais grant rydych chi'n gwneud cais amdano.<br><br>Nodwch y gwahaniaeth rhwng costau Refeniw a Chyfalaf.<br><br>Nodwch faint o gyllid cyfatebol rydych chi wedi'i sicrhau – mae angen o leiaf 10% ar gyfer ceisiadau am grant hyd at £5,000 neu 20% ar gyfer ceisiadau am grant hyd at £10,000.<br><br>Mae angen dadansoddiad ariannol llawn yn eich Cynllun Prosiect. Templed. Gweler Meini Prawf Asesu 6 o fewn **Canllawiau Templed Cynllun Prosiect** isod. |
| Adran 6.<br><br>Templed Cynllun Prosiect | Rhaid i chi uwchlwytho / atodi eich Templed Cynllun Prosiect wedi'i lenwi.<br><br>Gweler **Canllawiau Templed Cynllun Prosiect** isod. |
| Sut bydd eich grant yn cael ei dalu | Os caiff eich cais ei gymeradwyo, byddwch chi'n derbyn e-bost gyda'ch cynnig grant.<br><br>Bydd angen i chi dderbyn y cynnig grant mewn egwyddor drwy ymateb i'r e-bost.<br><br>Ar ôl i ni dderbyn eich e-bost yn derbyn y cynnig, byddwn ni'n gofyn i chi lofnodi Telerau ac Amodau Grant gyda'r Cyngor.<br><br>Bydd gofyn i chi anfon anfoneb gan eich sefydliad i'r Cyngor am y swm y cyfeirir ato yn eich llythyr cynnig.<br><br>Bydd taliad yn cael ei wneud i'r cyfrif banc sydd wedi'i nodi ar y ffurflen gais ar ôl derbyn anfoneb am y swm y cytunwyd arno yn eich amserlen dalu.<br><br>Bydd angen i chi ddarparu adroddiad cynnydd chwe mis ac astudiaeth achos ar y templedi a gaiff eu darparu ac ar ôl cwblhau'r prosiect.<br><br>Byddwch yn effro i'r ffaith efallai y bydd raid i'r Cyngor ail-hawlio'r grant pe ne bai'r sefydliad neu'r gweithgarwch arfaethedig yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant |

| | |
|---|---|
| | a/neu'n methu â darparu tystiolaeth o'r deilliannau y cytunwyd arnyn nhw ac sy'n ofynnol. |
| Adran 7<br><br>Rheoli Cymorthdaliadau'r Wladwriaeth | **Cymorth Ariannol Lleiaf**<br><br>Rhaid dyfarnu rhai grantiau o dan y rheolau **Cymorth Ariannol Lleiaf**.<br><br>**Mae hyn yn berthnasol i:**<br><br>Mae Cymorth Ariannol Lleiaf yn berthnasol i **fentrau**. Mae'r isod yn rhan o hyn:<br><br>• Busnesau<br>• Mentrau cymdeithasol<br>• Elusennau neu sefydliadau nid er elw **lle maen nhw'n codi tâl am nwyddau neu wasanaethau neu'n gweithredu mewn marchnad**<br><br>Os yw'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer **gweithgareddau aneconomaidd** yn unig (er enghraifft, gwasanaethau cymunedol am ddim), dydy Cymorth Ariannol Lleiaf ddim yn berthnasol.<br><br>**Cyfyngiadau'r cyllid**<br><br>Mae modd i sefydliad dderbyn hyd at **gyfanswm o £315,000** mewn Cymorth Ariannol Lleiaf.<br><br>Mae hyn yn cynnwys Cymorth Ariannol Lleiaf a chyllid cyhoeddus tebyg sy'n cael ei dderbyn gan **unrhyw awdurdod cyhoeddus yn y DU**.<br><br>**Y Cyfnod Dan Sylw**<br><br>Mae'r terfyn yn berthnasol dros gyfnod treigl o **dair blynedd ariannol**, gan gwmpasu:<br><br>• y flwyddyn ariannol gyfredol, a<br>• y ddwy flwyddyn ariannol flaenorol.<br><br>**Yr hyn sydd angen i ymgeiswyr ei wneud**<br><br>Os yw'r Cymorth Ariannol Lleiaf yn berthnasol i'ch sefydliad neu'ch gweithgaredd chi, rhaid i chi ddewis 'a' neu 'b' a darparu manylion am gymorthdaliadau blaenorol. |

| | |
|---|---|
| | Os dydy'r Cymorth Ariannol Lleiaf ddim yn berthnasol, dewiswch Opsiwn C ‘dim un o’r uchod’.<br><br>Rhaid llofnodi'r datganiad. |
| Adran 8<br><br>Awdurdodiad | Rhaid i'r person sy'n cwblhau eich cais ac un person awdurdodedig arall o'ch sefydliad (e.e. Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd neu Ymddiriedolwr) lofnodi a dyddio'r cais cyn iddo gael ei gyflwyno. |
| Adran 9<br><br>Rhestr Wirio | Mae'r adran yma i chi sicrhau eich bod chi wedi cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol cyn i chi gyflwyno eich cais.<br><br>Mae hwn yn broses gystadleuol. Cadwch at y nifer geiriau ym mhob adran. Darparwch yr holl wybodaeth.<br><br>Gall gwybodaeth sydd ar goll, gwybodaeth anghywir neu ysgrifennu mwy na'r cyfrif geiriau arwain at eich cais yn cael ei wrthod. |
| **CANLLAWIAU TEMPLED CYNLLUN PROSIECT** | |
| Ble i gael mynediad at y Templed Cynllun Prosiect | Mae'r Templed Cynllun Prosiect ar gael i'w lawrlwytho ar ffurf dogfen Word drwy wefan RhCT Gyda'n Gilydd.<br><br>Llenwch bob adran o'r Templed Cynllun Prosiect.<br><br>Cadwch at y terfynau geiriau ar gyfer y Templed Prosiect. Os ydych chi'n ysgrifennu mwy na'r cyfrif geiriau, fydd unrhyw wybodaeth ychwanegol ddim yn cael ei hystyried.<br><br>Cyfeiriwch hefyd at y ddogfen Meini Prawf.<br><br>Mae modd i chi uwchlwytho / atodi eich Templed Cynllun Prosiect wedi'i gwblhau ar ffurf dogfen Word neu PDF. |
| Enw'r sefydliad ac enw'r prosiect | Rhowch enw'r sefydliad.<br><br>Rhowch enw'r prosiect. |
| **<u>Meini Prawf Asesu 1</u>**<br>**Tystiolaeth o Angen y Gymuned** | Disgrifiwch sut rydych chi'n effro i'r ffaith bod angen eich prosiect ar eich cymuned.<br><br>Dywedwch wrthon ni a yw'n fenter newydd neu'n cynnal gweithgaredd sy'n bodoli eisoes.<br><br>Dylech chi ddangos sut rydych chi'n gwybod bod galw am y prosiect yma.<br><br>Er enghraifft, beth mae data lleol yn ei ddweud wrthoch chi, beth mae eich sefydliad yn gwybod o brofiad, beth mae eich |

| | |
|---|---|
| | cwsmeriaid yn ei ddweud wrthoch chi, a gafodd ei nodi yn ystod cyfarfod Rhwydweithiau Cymdogaeth neu drwy arolwg diweddar neu ymgynghoriad yn y gymuned.<br><br>Sylwch fod angen y gymuned yn wahanol i angen eich sefydliad a bod rhaid i geisiadau **ddiwallu angen y gymuned.**<br><br>Os ydych chi'n gwneud cais am gyllid Cyfalaf, ac er enghraifft yn unig;<br><br>ydy'r prosiect yma'n gwella hygyrchedd, neu a ydych chi wedi cael archwiliad effeithlonrwydd ynni? Os felly, cofiwch gynnwys unrhyw ddyfynbrisiau am waith, neu gynnwys yr adroddiad effeithlonrwydd ynni gyda'ch cais. |
| **<u>Meini Prawf Asesu 2</u>**<br>**Gweithgareddau ac Amserlenni** | Nodwch fanylion gweithgareddau fydd yn digwydd a'r dyddiadau rydych chi'n bwriadu eu darparu.<br><br>Yr amserlen ar gyfer y gwariant/gweithgaredd cymwys yw 1 Ebrill 2026 – 31 Mawrth 2027.<br><br>Rhaid i chi gadarnhau'r cyfeiriad(au) dosbarthu ar gyfer eich prosiect. |
| **<u>Meini Prawf Asesu 3.</u>**<br>**Cynaliadwyedd, Strategaeth Ymadael ac Etifeddiaeth** | Mae'n **hanfodol** bod buddion eich prosiect yn ymestyn y tu hwnt i oes y cyllid grant.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr ddangos yn glir sut y bydd y gweithgaredd, y prosiect neu'r datblygiad yn darparu buddion parhaol i'r gymuned.<br><br>Dylech chi esbonio sut mae eich sefydliad yn bwriadu cynnal y prosiect neu adeiladu arno am o leiaf **12 mis ar ôl mis Mawrth 2027**, boed hynny drwy barhau i'w gyflawni, ymarfer wedi'i fewnosod sy'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan eich sefydliad, neu asedau parhaol.<br><br>Bydd ceisiadau sy'n dibynnu'n llwyr ar geisio cyllid grant allanol pellach, heb gynllun wrth gefn neu gynaliadwyedd cadarn a chredadwy, yn sgorio'n is.<br><br>**Enghreifftiau o Gynaliadwyedd, Strategaeth Ymadael ac Etifeddiaeth** |

| | |
|---|---|
| | • **Cynaliadwyedd y prosiect**, gan gynnwys gwelliannau cyfalaf i adeiladau, prynu offer hirhoedlog, neu leihau costau rhedeg yn y dyfodol.<br>• **Codi arian neu godi incwm**, er enghraifft codi arian cymunedol, rhoddion, cyfraniadau bach gan gyfranogwyr, neu ddefnyddio'r prosiect i ddenu cyllid yn y dyfodol.<br>• **Gwaddol o safbwynt y Gymuned**, megis rhagor o sgiliau, hyder neu gapasiti ymhlith gwirfoddolwyr a chyfranogwyr, adnoddau sy'n parhau i fod ar gael, neu weithgareddau sy'n gallu parhau'n annibynnol.<br>• **Cynllunio ymadael**, yn dangos sut y bydd y prosiect yn cael ei ymgorffori mewn gweithgaredd parhaus, partneriaethau neu'r gymuned ehangach.<br><br>Dylai ymatebion fod yn realistig ac yn gymesur â maint y grant rydych chi'n gofyn amdano.<br><br>Sylwch mai dim ond ceisiadau sy'n cyflawni'r sgôr uchaf (3 allan o 3) **ar gyfer Cynaliadwyedd, Strategaeth Ymadael a Gwaddol fydd yn cael eu symud ymlaen i'r cam asesu nesaf.**<br><br>Dylai ymgeiswyr gyfeirio at y Meini Prawf Asesu wrth ddatblygu eu hymateb. |
| **<u>Meini Prawf Asesu 4</u>**<br>**Amcanion y Gronfa Partneriaeth Gymunedol** | Mae angen i chi ddewis yr allbynnau a'r deilliannau sy'n cyd-fynd orau â'r hyn y bydd eich prosiect yn ei gyflawni er budd trigolion RhCT.<br><br>Ar gyfer pob allbwn neu ddeilliant rydych chi'n dewis, rhaid i chi ddangos:<br><br>• Sut rydych chi'n disgwyl ei gyflawni (eich rhagamcan)<br>• Sut byddwch chi'n dangos tystiolaeth o hyn (sut byddwch chi'n profi bod hynny wedi digwydd).<br><br>Does dim angen i chi **ddewis yr holl allbynnau a deilliannau**.<br><br>Rhaid i chi ddewis o leiaf un allbwn neu ddeilliant ar gyfer pob ffrwd ariannu, e.e.:<br><br>• Os ydych chi'n gwneud cais am gyllid Cyfalaf a Refeniw, dewiswch o leiaf un o bob un<br>• Os ydych chi'n gwneud cais am gyllid Cyfalaf yn unig, dewiswch o'r allbynnau/deilliannau Cyfalaf yn unig. |

| | |
|---|---|
| | **Allbynnau a Deilliannau**<br><br>Dewiswch o'r rhestr isod:<br><br>Cyfalaf a Chyfarpar:<br><br>• Nifer y cyfleusterau a'r safleoedd a gafodd eu creu a'u gwella. (e.e. gwaith atgyweirio i adeiladau, gosod rampiau neu baneli solar.)<br>• Eitemau o offer a brynnir ar gyfer darpariaeth bwyd (e.e.<br>• Oergelloedd, rhewgelloedd, silffoedd, unedau storio, ffyrnau, hobiau sefydlu).<br>• Eitemau o offer a brynnir ar gyfer mentrau tyfu bwyd (e.e. gwelyau planhigion, offer, compost, twneli polythen).<br><br>Refeniw:<br><br>• Nifer y mannau cymunedol cynnes a chroesawgar a gafodd eu cefnogi neu eu creu.<br>• Nifer y bobl sy'n cael mynediad at gyngor, gweithgareddau a chymorth mewn mannau nad ydyn nhw'n stigmateiddio.<br>• Nifer y bobl sydd â mynediad cynyddol at fwyd maethlon o ansawdd da.<br>• Nifer y bobl sy'n profi mwy o gysylltiad cymdeithasol.<br>• Nifer y bobl sy'n profi lles meddyliol gwell.<br><br>**Effaith Strategol – Beth Fydd yn Newid o Ganlyniad i'r Cyllid?**<br><br>Dylai'r allbynnau a'r deilliannau rydych chi'n eu dewis ddangos yn glir sut mae eich prosiect yn cyfrannu at amcanion Cronfa Llywodraeth Cymru a Chronfa Balchder Bro Llywodraeth y DU.<br><br>Dylai prosiectau ddangos sut y bydd cyllid yn creu budd cymunedol cynaliadwy, hirdymor, yn enwedig drwy ddatblygu neu wella cyfleusterau cymunedol, seilwaith ac asedau sy'n parhau i wasanaethu pobl leol y tu hwnt i'r cyfnod ariannu.<br><br>Mae'r isod yn rhan o hyn:<br><br>• Gwella neu greu cyfleusterau a safleoedd cymunedol |

| | |
|---|---|
| | • Gwneud adeiladau'n fwy effeithlon o ran ynni, megis drwy inswleiddio, atgyweirio toeau neu baneli solar<br>• Prynu a gosod offer hanfodol i storio, paratoi a dosbarthu bwyd<br>• Cefnogi mentrau tyfu bwyd drwy ddarparu offer a seilwaith priodol.<br><br>**<u>Tystiolaeth a Monitro</u>**<br><br>Byddwn ni'n gofyn i chi ddarparu tystiolaeth bod yr allbynnau a'r deilliannau wedi'u cyflawni.<br>Yn eich ffurflen gais, rhaid i chi nodi sut y byddwch chi'n casglu a chadw'r dystiolaeth yma.<br><br>Mae enghreifftiau o dystiolaeth yn cynnwys:<br><br>• Cofrestrau presenoldeb neu weithgareddau<br>• Ffurflenni cofrestru gwirfoddolwyr<br>• Taflenni amser gwirfoddolwyr<br>• Cofnodion monitro<br>• Lluniau cyn ac ar ôl gwneud gwaith cyfalaf. |
| **<u>Meini Prawf Asesu 5</u> Hanes Profedig** | Rhaid i ni fod yn hyderus y bydd unrhyw grantiau a gaiff eu dyfarnu yn cael eu gwario, eu darparu a'u cefnogi gan dystiolaeth yn brydlon ac yn gywir.<br><br>Dylech chi roi gwybod am brofiad blaenorol o gyflwyno prosiectau wedi'u hariannu gan grant yn llwyddiannus. |
| **<u>Meini Prawf Asesu 6</u> Costau'r prosiect** | Yn yr adran yma, rhaid i chi ddarparu crynodeb o gostau ar gyfer y flwyddyn ariannol.<br><br>Rhaid i'r prosiectau ddangos gwerth am arian.<br><br>Caniateir gwariant cyfalaf a refeniw.<br><br>**Mae gwariant cyfalaf** yn ymwneud â gwariant hirdymor, (mae gan y gwariant werth dros nifer o flynyddoedd), lle caiff asedau eu prynu, eu hadeiladu neu eu gwella.<br><br>3 dyfynbris neu bris ysgrifenedig a geisir gan gyflenwyr nwyddau, gwaith a / neu wasanaethau perthnasol sy'n werth mwy na £2,500.<br><br>**Mae gwariant refeniw** fel arfer yn gostau gweithredu parhaus sy'n cael eu defnyddio wrth gynnal eich prosiect. |

| | |
|---|---|
| | Os yw hynny'n wir, bydd angen ichi nodi o ble y daw'r cyllid ychwanegol yn yr ail dabl ariannol.<br><br>Ar gyfer pob cais, bydden ni'n disgwyl i sefydliadau gysylltu â ffynonellau ariannu eraill, er enghraifft, Cronfa Deddf Eglwys Cymru, Sefydliad Moondance, Interlink Rhondda Cynon Taf, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol neu gronfeydd wrth gefn y sefydliad.<br><br>Rhaid i gyfanswm y grant rydych chi'n gwneud cais amdano fod rhwng £2,000 a £10,000.<br><br>Mae modd cynnwys uchafswm o 10% i gefnogi costau craidd y sefydliad. Serch hynny, ni ddylai cyfanswm y cais am grant fod yn fwy na £10,000.<br><br>Cyllid Cyfatebol - Ar gyfer grantiau **Lefel Is** hyd at £5,000 mae angen o leiaf 10% o **gyllid cyfatebol**. Ar gyfer grantiau **Lefel Uwch** hyd at £10,000 mae angen o leiaf 20% o gyllid cyfatebol**. O'r herwydd, bydd cyfanswm y gost yn fwy na chyfanswm y grant rydych chi'n gwneud cais amdano.**<br><br>Os yw'ch sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, fyddwch chi ddim yn cael hawlio TAW.<br><br>Os nad yw eich sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, yna mae TAW yn gost prosiect cymwys. |
| **Caniatâd** | Mae angen i ni wybod bod gyda chi'r caniatâd angenrheidiol ar waith i gyflawni eich prosiect. Rhaid i hyn fod ar waith cyn i chi wneud eich cais.<br><br>Er enghraifft, os ydych chi'n rhentu cyfleuster; a oes gyda chi ganiatâd gan eich landlord i gynnal y gweithgaredd neu i wneud y newidiadau arfaethedig?<br><br>Bydd raid i chi gyflwyno tystiolaeth o unrhyw ganiatâd fel atodiad gyda'ch ffurflen gais, e.e. cadarnhad ysgrifenedig gan eich landlord.<br><br>Os ydych chi'n ymgymryd â gwaith cyfalaf, bydd angen i chi wirio a oes angen Caniatâd Cynllunio a chymeradwyaeth Rheoli Adeiladu arnoch chi gan fod y rhain yn gallu ychwanegu costau at eich cynnig.<br><br>Cliciwch ar y ddolen i wirio - Cynllunio, Eiddo a Rheoli Adeiladu \| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

| | |
|---|---|
| **Risgiau'r Prosiect** | Amlinellwch unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.<br><br>Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael Templed Cofnodi Risg i'w gwblhau bob chwarter. |
| **Awdurdodiad** | Rhaid i'r person sy'n cwblhau eich cais ac un person awdurdodedig arall o'ch sefydliad (e.e. Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd neu Ymddiriedolwr) lofnodi a dyddio'r cais cyn iddo gael ei gyflwyno. |

Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau pellach sydd heb gael eu nodi yn y canllaw yma, e-bostiwch **llenyddiaethagrantiaucymunedol@rctcbc.gov.uk** neu ffonio 01443 425368.